



## Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2016-17 Addysg: safbwyntiau a chymorth gan rieni

24 Mai 2018  
SB 34/2018

Yn 2016-17, roedd Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cynnwys nifer o gwestiynau ynghylch boddhad rhieni ag ysgolion, cymorth gan rieni gyda llythrennedd a rhifedd, a hyder rhieni i helpu â Chymraeg, Saesneg a mathemateg. Gofynnwyd i rieni a'r rheini nad ydynt yn rhieni am eu barn gyffredinol am y system addysg yng Nghymru hefyd.

### Prif ganfyddiadau

- Roedd 90% o rieni yn fodlon ar ysgol gynradd eu plentyn; roedd 85% yn fodlon ar ysgol uwchradd eu plentyn.
- Roedd 54% rieni yn helpu eu plentyn bob dydd â llythrennau, darllen neu ysgrifennu (sydd wedi cynyddu o 49% yn 2014-15).
- Roedd 39% o rieni'n helpu eu plentyn bob dydd â mathemateg neu rifau.
- Roedd 77% yn teimlo'n hyderus iawn yn eu gallu i helpu eu plentyn i ddarllen yn Saesneg; roedd 16% yn teimlo'n hyderus iawn yn eu gallu eu hunain i ddarllen Cymraeg.
- Roedd 61% o rieni'n teimlo'n hyderus iawn yn eu gallu i helpu â mathemateg.
- Roedd siaradwyr Cymraeg yn fwy tebygol o deimlo'n hyderus yn eu gallu Saesneg a mathemateg nag unigolion di-Gymraeg, hyd yn oed ar ôl rheoli'r gwahaniaethau eraill rhwng siaradwyr Cymraeg a Saesneg.
- Roedd y bobl (rhieni a'r rheini nad ydynt yn rhieni) a oedd fwyaf bodlon ar addysg yng Nghymru yn debygol o fodloni'r canlynol: dim cymwysterau, bodlon iawn ar eu bywyd, plentyn o dan 5 oed, byw mewn eiddo rhent neu dai cymdeithasol, ddim yn wyn Cymreig/Prydeinig, byw mewn awdurdodau lleol penodol.



### Am y bwletin hwn

Mae'r bwletin hwn yn darparu dadansoddiad manylach o ganlyniadau Arolwg Cenedlaethol 2016-17 ar gyfer y cwestiynau ynghylch **boddhad yn yr ysgol, cymorth gan rieni gyda llythrennedd a rhifedd, hyder rhieni, a boddhad â'r system addysg.**

Mae'r holiadur llawn ar gael ar [dudalennau gwe yr Arolwg Cenedlaethol](#).

Gellir gweld tablau ychwanegol drwy'r [Dangosydd canlyniadau](#).

### Yn y bwletin hwn

Cyflwyniad	2
Boddhad ag ysgolion cynradd ac uwchradd	3
Cymorth gan rieni gyda llythrennedd a rhifedd	6
Barn am y system addysg yng Nghymru	12
Termau a diffiniadau	16
Gwybodaeth allweddol am ansawdd	19

## Cyflwyniad

Mae polisïau Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar ganfyddiadau sy'n dangos bod rhieni sy'n siarad â'u plant, sy'n gwerthfawrogi dysgu ac sy'n annog eu plant i ddarllen yn gallu gwella sgiliau iaith a llythrennedd eu plentyn yn sylweddol, a'u helpu i fod yn barod ar gyfer yr ysgol a bywyd ar ôl hynny.

Cafodd cwestiynau ar gymorth gan rieni eu cynnwys yn yr Arolwg Cenedlaethol er mwyn darparu tystiolaeth i ddatblygu'r Cyfnod Sylfaen (y cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer plant rhwng 3 a 7 oed). Gofynnwyd i rieni a oedd â phlentyn yn yr ysgol gynradd (3 i 11 oed) am eu hyder eu hunain o ran helpu eu plentyn i ddysgu. Mae'r bwletin hwn yn cyflwyno canlyniadau'r cwestiynau hyn.

Defnyddir y canlyniadau ar y cyd â ffynonellau data eraill (adroddiadau arolygon, canlyniadau arholiadau, ayb.) i roi asesiad ehangach o ansawdd gwasanaethau addysg i Lywodraeth Cymru. Bydd y dystiolaeth hon yn sail i'r broses o roi strategaeth Llywodraeth Cymru ar waith, sef [Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl](#), sy'n pennu sut bydd y system ysgolion yn symud ymlaen yn ystod 2017-2021. Bydd hefyd yn cael ei defnyddio yng ngwerthusiadau rhaglenni a pholisïau eraill Llywodraeth Cymru, gan gynnwys astudiaethau o ddiwygiadau addysgol.

Mae'r adnodd [Fy Ysgol Leol](#) yn galluogi pobl i gael mynediad at ddata ysgolion, lle mae modd canfod rhagor o wybodaeth am ganlyniadau, presenoldeb a chategorïau cefnogi ysgolion<sup>1</sup>.

---


<sup>1</sup> Categorïau cefnogi ysgolion – edrychwch ar y [Termau a'r diffiniadau](#)

## Bodddhad ag ysgolion cynradd ac uwchradd

Gofynnwyd i rieni am eu bodddhad ag ysgol gynradd neu uwchradd eu plentyn yn ystod y 12 mis diwethaf. Dywedodd 90% o rieni eu bod yn fodlon ar ysgol gynradd eu plentyn; a dywedodd 85% eu bod yn fodlon ar ysgol uwchradd eu plentyn.

Mae Siart 1 yn dangos canran y rhieni a oedd yn fodlon iawn neu'n eithaf bodlon ar ysgol gynradd neu uwchradd eu plant ar gyfer blynyddoedd yr arolwg lle gofynnwyd y cwestiwn. Nid oedd y ffigurau ar gyfer 'bodlon iawn' ac 'eithaf bodlon' yn amrywio llawer dros y blynyddoedd. Roedd 68% o rieni'n fodlon iawn ar ysgol gynradd eu plentyn yn 2013-14, o'i gymharu â 62% yn 2016-17. Fodd bynnag does dim gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y blynyddoedd. Hefyd, mae bodddhad ag ysgolion cynradd wedi aros yn uwch na'r bodddhad ag ysgolion uwchradd dros y 3 blynedd.

**Siart 1: Bodddhad ag ysgolion cynradd ac uwchradd, yn ôl blwyddyn yr arolwg**




Roedd pobl a oedd yn teimlo bod ymdeimlad o gymuned<sup>2</sup> lle maent yn byw yn fwy tebygol o fod yn fodlon ar ysgol gynradd (94%) ac ysgol uwchradd (89%) eu plentyn na'r rheini heb ymdeimlad o gymuned (86% ac 80% yn y drefn honno).

Mae Llywodraeth Cymru yn diffinio pedwar categori cefnogaeth<sup>3</sup> (gwyrdd, melyn, oren neu goch) lle mae'r lliw'n dangos lefel y gefnogaeth sydd ei hangen ar ysgol. Mae angen llai o gefnogaeth ar ysgolion yn y categori gwyrdd nag ysgolion yn y categori coch. Ymddengys fod cysylltiad rhwng y categorïau cefnogi ysgolion cynradd ac uwchradd â pha mor fodlon yw rhieni ar ysgol eu plentyn. Roedd rhieni'n fwy tebygol o fod yn fodlon iawn ar ysgolion cynradd yn y categori cefnogaeth gwyrdd (66%) nag ysgolion cynradd yn y categori cefnogaeth coch / oren (52%). Yn yr un modd, mae bodddhad ag ysgolion uwchradd yn cynyddu wrth i'r categori cefnogaeth symud o goch / oren i wyrdd. Mae Siart 2 yn dangos y canlyniadau hyn.

<sup>2</sup> Ymdeimlad o gymuned – edrychwch ar y [Termau a'r diffiniadau](#)

<sup>3</sup> Categorïau cefnogaeth – edrychwch ar y [Termau a'r diffiniadau](#)


## Siart 2: Boddhad ag ysgolion uwchradd, yn ôl categori cefnogaeth



### Boddhad ag ysgolion cynradd

Rhieni â'r plant ieuengaf oedd fwyaf tebygol o fod yn fodlon iawn ar ysgol gynradd eu plentyn. Roedd rhieni plant 4 oed yn fwy tebygol o fod yn fodlon iawn ar yr ysgol (72%) na'r rheini â phlant 11oed (54%). Caiff y canlyniadau ar gyfer pob oedran ysgol gynradd eu cyflwyno yn Siart 3.

### Siart 3: Bodlon iawn ar ysgol gynradd, yn ôl oed y plentyn



Roedd rhieni plant mewn tai sy'n eiddo i berchen-feddianwyr yn fwy tebygol o fod yn fodlon ar ysgol gynradd eu plentyn (92%) na'r rheini mewn llety rhent preifat (84%). Hefyd, roedd yr aelwydydd lle nad oes unrhyw un yn gweithio yn debygol o fod yn llai bodlon ar ysgolion cynradd (83%) na chartrefi lle mae pawb yn gweithio (92%).

Lle mae amddifadedd materol yn yr aelwyd, roedd pobl yn llai tebygol o fod yn fodlon ar ysgol gynradd eu plentyn (83%) nag aelwydydd lle nad oes amddifadedd materol (92%).

## Bodddhad ag ysgolion cynradd – dadansoddiad pellach

Mae croes-ddadansoddi yn nodi'r ffactorau a all fod yn gysylltiedig â bodddhad ag ysgolion cynradd. Fodd bynnag, mae'r ffactorau hyn yn aml yn gysylltiedig â'i gilydd (er enghraifft, gall pobl mewn aelwydydd lle mae amddifadedd materol fod yn byw mewn tai cymdeithasol a bod yn ddi-waith). I gael dealltwriaeth gliriach o effaith pob ffactor unigol, rydym wedi defnyddio dulliau ystadegol<sup>4</sup> i wahanu effaith pob ffactor. Mae'r dulliau hyn yn caniatáu i ni edrych ar effaith un ffactor gan gadw'r ffactorau eraill yn gyson – a elwir yn “rheoli ar gyfer ffactorau eraill”<sup>5</sup> weithiau.

Gwnaethom ganfod bod cysylltiad cryf rhwng y ffactorau hyn a rhieni a oedd yn fodlon iawn ar ysgol gynradd eu plentyn:

- ymdeimlad o gymuned;
- bodlon ar eu swydd;
- ymddiried yn y rhan fwyaf o bobl; a
- bod yr ysgol yn un lle mae 90% neu fwy o'r plant yn llwyddo yng Nghyfnod Allweddol 2<sup>6</sup>.

## Bodddhad ag ysgolion uwchradd – dadansoddiad pellach

I gael dealltwriaeth gliriach o effaith pob ffactor penodol, rydym wedi rheoli ar gyfer ffactorau eraill<sup>7</sup>. Drwy ddefnyddio'r dull hwn, rydym wedi gweld bod cysylltiad rhwng y canlynol a phobl sy'n fodlon iawn ar ysgol uwchradd eu plentyn:

- ymdeimlad o gymuned;
- bodlon ar eu swydd;
- plentyn yn mynd i ysgol a gynorthwyr yn wirfoddol<sup>8</sup>;
- plentyn yn mynd i ysgol uwchradd yn y categori cefnogaeth gwyrdd

Canfu'r croes-ddadansoddiad bod ysgolion uwchradd lle roedd dros 70% wedi llwyddo yn CA4, roedd 59% o'r rhieni yn fodlon iawn ar yr ysgol uwchradd. I'r gwrthwyneb, 42% o rieni oedd yn 'fodlon iawn' ar ysgolion uwchradd eu plant lle roedd llai na 40% wedi llwyddo yn CA4. Fodd bynnag, ar ôl rheoli ar gyfer y ffactorau eraill, nid oedd canlyniadau Cyfnod Allweddol 4 yn ddangosydd allweddol o fodlonrwydd mwyach.

<sup>4</sup> Gelwir y dadansoddiad hwn yn atchweliad logistaidd. Gellir cael gwybodaeth am y dull yn [Dadansoddiad atchweliad](#)

<sup>5</sup> Dyma'r ffactorau a oedd yn cael eu rheoli: oedran y plentyn, rhyw'r plentyn, nifer y plant yn y cartref, cymwysterau'r rhieni, rhyw'r rhieni, gallu siarad Cymraeg, deiliadaeth, statws gwaith yr aelwyd, amddifadedd materol, math o aelwyd, ymdeimlad o gymuned, ardaloedd trefol a gwledig, ymddiriedaeth mewn pobl, iaith yr ysgol, categori cefnogaeth yr ysgol, categori'r ysgol, canran cyflawni Cyfnod Allweddol 2, nifer yr absenoldebau wedi'u hawdurdodi a heb eu hawdurdodi, a phrydau ysgol am ddim.

<sup>6</sup> Lefel 4 neu uwch mewn Mathemateg, Gwyddoniaeth a naill ai Gymraeg neu Saesneg

<sup>7</sup> Dyma'r ffactorau a oedd wedi'u cynnwys yn y model: oedran y plentyn, rhyw'r plentyn, nifer y plant yn y cartref, cymwysterau'r rhieni, rhyw'r rhieni, gallu siarad Cymraeg, deiliadaeth, statws gwaith yr aelwyd, amddifadedd materol, math o aelwyd, ymdeimlad o gymuned, ardaloedd trefol a gwledig, ymddiriedaeth mewn pobl, iaith yr ysgol, categori cefnogaeth yr ysgol, categori'r ysgol, canran cyflawni Cyfnod Allweddol 4, amser a gymerwyd i feicio i'r ysgol, nifer yr absenoldebau wedi'u hawdurdodi a heb eu hawdurdodi, prydau ysgol am ddim.

<sup>8</sup> Mathau o ysgolion - edrychwch ar y [Termau a'r diffiniadau](#)

## Cymorth gan rieni gyda llythrennedd a rhifedd


Roedd yr Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys cwestiynau am gymorth gan rieni gyda llythrennedd a rhifedd. Gofynnwyd i rieni â phlentyn rhwng 3 a 7 oed pa mor aml maent yn helpu eu plentyn â llythrennau, darllen neu ysgrifennu, a mathemateg neu rifau. Gofynnwyd i rieni â phlentyn rhwng 3 ac 11 oed pa mor hyderus ydynt yn eu gallu ei hunain i helpu â darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac â mathemateg.

Yn achos y ddwy gyfres o gwestiynau, os oedd mwy nag un plentyn yn y cartref yn y grŵp oedran hwn, dewiswyd un plentyn ar hap a gofynnwyd i'r ymatebydd feddwl am y plentyn hwn wrth ateb. Mae'n bwysig nodi mai dim ond y rhiant a ddewiswyd ar hap i'w gyfweld y gofynnodd yr arolwg iddo faint o amser yr oedd yn ei dreulio yn gwneud gweithgareddau amrywiol gyda'i blentyn. Ni chasglwyd gwybodaeth am yr amser yr oedd y rhiant arall neu oedolyn arall yn ei dreulio'n gwneud yr un gweithgareddau gyda'r plentyn.

### Pa mor aml mae rhieni'n helpu

Roedd rhieni â phlentyn rhwng 3 a 7 oed yn dueddol o helpu eu plentyn gyda llythrennau, darllen neu ysgrifennu yn amlach nag yr oeddent yn helpu eu plentyn gyda mathemateg neu rifau. Mae hyn i'w weld yn Siart 4: Roedd 54% o rieni yn helpu eu plentyn gyda llythrennau, darllen neu ysgrifennu bob dydd, o'i gymharu â'r 39% a oedd yn helpu gyda mathemateg neu rifau. Roedd y canlyniadau'n debyg iawn yn 2014-15, lle roedd bron i hanner y rhieni (49%) yn helpu eu plentyn â llythrennau, darllen neu ysgrifennu bob dydd, o'i gymharu â'r 37% a oedd yn helpu eu plentyn â mathemateg neu rifau bob dydd.


### Siart 4: Pa mor aml mae rhiant yn helpu ei blentyn i ddysgu, yn ôl blwyddyn yr arolwg



Mae pa mor aml mae rhieni'n helpu eu plant gyda llythrennau, darllen neu ysgrifennu, a mathemateg neu rifau yn lleihau wrth i nifer y plant mewn aelwyd gynyddu. Mae Siart 5 yn dangos mai mewn aelwydydd un plentyn yn unig oedd rhieni'n rhoi cymorth dyddiol amlaf, gyda 61% o'r rhieni'n darparu cymorth dyddiol gyda llythrennau, darllen neu ysgrifennu, o'i gymharu â 38% o


rieni â 3 neu fwy o blant. Gwelir tuedd debyg ar gyfer cymorth gyda mathemateg neu rifau, sydd hefyd i'w gweld yn Siart 5.

#### Siart 5: Cymorth dyddiol gan rieni, yn ôl nifer y plant yn y cartref



Mae cymorth dyddiol gan rieni gyda llythrennau, darllen neu ysgrifennu, a gyda mathemateg neu rifau, yn amrywio yn ôl oedran y plentyn. Fel y gwelir yn Siart 6, roedd y cymorth dyddiol gyda mathemateg neu rifau yn gostwng wrth i oedran y plentyn gynyddu. Roedd 47% o rieni plant 4 oed yn rhoi cymorth dyddiol gyda mathemateg neu rifau; ond roedd y cymorth dyddiol yn gostwng i 36% ar gyfer plant 5 oed.

#### Siart 6: Cymorth dyddiol gan rieni yn ôl oedran y plentyn dan sylw




## Hyder rhieni yn eu gallu eu hunain i helpu'r plentyn i ddysgu

Gofynnwyd i rieni â phlant rhwng 3 ac 11 oed pa mor hyderus yr oeddent yn eu gallu eu hunain i helpu eu plentyn gyda darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg, a gyda mathemateg. Mae Siart 7 yn dangos y canlyniadau.


Roedd 77% o rieni'n teimlo'n hyderus iawn yn eu gallu i helpu eu plentyn gyda darllen yn Saesneg; roedd 74% yn teimlo'n hyderus iawn yn eu gallu i helpu eu plentyn i ysgrifennu yn Saesneg. Yn gyffredinol, roedd rhieni'n llai hyderus o lawer yn helpu gyda darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg, gyda dim ond 16% a 15% yn dweud eu bod yn hyderus iawn yn gwneud hyn.

### Siart 7: Hyder rhieni yn eu gallu eu hunain i helpu eu plentyn 3 i 11 oed




Nid yw'n syndod efallai fod siaradwyr Cymraeg yn fwy tebygol o fod yn hyderus iawn yn eu gallu eu hunain i ddarllen (51%) ac ysgrifennu (49%) yn Gymraeg nag unigolion di-Gymraeg (4% a 3% yn y drefn honno). Fodd bynnag, roedd siaradwyr Cymraeg hefyd yn fwy tebygol o fod yn hyderus iawn yn eu gallu eu hunain i ddarllen (86%) ac ysgrifennu (84%) yn Saesneg, yn ogystal â'u gallu mathemateg (70%) nag unigolion di-Gymraeg (73%, 69% a 58% yn y drefn honno). Dangosir y canlyniadau yn Siart 8.

## Siart 8: Hyder rhieni o ran helpu gyda Saesneg a Mathemateg, yn ôl y gallu i siarad Cymraeg



Mae croes-ddadansoddiad yn dangos bod cysylltiad rhwng cymwysterau rhieni a'u hyder yn helpu gyda darllen ac ysgrifennu yn Saesneg, a gyda mathemateg. Mae Siart 9 yn dangos y berthynas hon ar gyfer rhieni a oedd yn hyderus iawn yn eu gallu eu hunain o ran darllen ac ysgrifennu'n Saesneg a mathemateg.

## Siart 9: Rhieni sy'n hyderus iawn yn eu gallu o ran darllen ac ysgrifennu yn Saesneg a mathemateg, yn ôl cymwysterau



O edrych ar hyder yn ôl rhyw, roedd dynion (69%) yn fwy tebygol o fod yn hyderus iawn yn eu gallu mathemateg eu hunain na merched (54%).

## Hyder rhieni o ran Saesneg a mathemateg – dadansoddiad pellach

Eto, fe wnaethom gynnal dadansoddiad i edrych ar ffactorau<sup>9</sup> a all fod yn gysylltiedig â'r rheini sy'n hyderus iawn yn eu gallu eu hunain i helpu eu plentyn â darllen ac ysgrifennu yn Saesneg. Gan gadw pob ffactor yn gyson, gwnaethom ganfod mai'r rhain oedd y ffactorau a oedd yn cael eu cysylltu fwyaf â hyder:

- lefel cymwysterau uwch;
- ateb ar gyfer plentyn sy'n ferch;
- helpu plentyn rhwng 5 ac 8 oed;
- bod yn siaradwr Cymraeg;
- byw mewn llety sy'n eiddo i berchen-feddianwyr.

Yn yr un modd, gwnaethom waith dadansoddi i ganfod pwy oedd yn hyderus iawn yn eu gallu mathemateg eu hunain i helpu eu plentyn â mathemateg neu rifau. Mae pob un o'r ffactorau canlynol<sup>10</sup> yn cael effaith ar wahân ar ba mor debygol yw unigolyn o fod yn hyderus iawn yn ei allu mathemateg ei hun, ar ôl rheoli ar gyfer ffactorau eraill.

- lefel cymwysterau uwch;
- bod yn ddyn;
- bod yn siaradwr Cymraeg;
- ddim yn byw mewn cartref lle mae amddifadedd materol;
- bod â 2 o blant;
- bod â phlentyn iau.

## Cymorth gan rieni gyda darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg


Mae Siart 10 yn dangos sut mae hyder rhieni o ran helpu gyda darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg yn amrywio o ardal i ardal. Roedd rhieni yn Ne Ddwyrain a De Orllewin Cymru yn llai tebygol o fod yn hyderus iawn yn eu gallu i helpu gyda darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg na'r rheini yng Ngogledd Cymru. Mae hyn yn gysylltiedig â chanran y bobl sy'n siarad Cymraeg yn yr ardaloedd hyn. Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos bod 40% o bobl yng Ngogledd Cymru yn siarad Cymraeg, o gymharu â 24% yn Ne Ddwyrain Cymru a 25% yn Ne Orllewin Cymru.

---

<sup>9</sup> Dyma'r ffactorau a oedd wedi'u cynnwys yn y model: cymwysterau'r rhiant, gallu siarad Cymraeg, oedran y plentyn, rhyw'r plentyn, ardaloedd trefol a gwledig, rhyw'r rhiant, gorbryder, amddifadedd materol aelwydydd, MALIC, deiliadaeth, nifer y plant yn y cartref.

<sup>10</sup> Dyma'r ffactorau a oedd wedi'u cynnwys yn y model: cymwysterau'r rhiant, gallu siarad Cymraeg, oedran y plentyn, rhyw'r plentyn, ardaloedd trefol a gwledig, rhyw'r rhiant, gorbryder, amddifadedd materol aelwydydd, MALIC, deiliadaeth, nifer y plant yn y cartref.

## Siart 10: Hyder rhieni o ran helpu i ddarllen ac ysgrifennu yn Gymraeg, yn ôl ardal



Gan ddilyn yr un patrwm, roedd rhieni sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru yn fwy tebygol o fod yn hyderus iawn o ran helpu i ddarllen ac ysgrifennu yn Gymraeg (25% a 23%) na'r rheini sy'n byw mewn ardaloedd trefol (12% ac 11%).

Nid oedd 56% o dadau (â phlentyn rhwng 3 ac 11 oed) yn hyderus o gwbl o ran helpu i ddarllen ac ysgrifennu yn Gymraeg. Mae hyn o'i gymharu â 45% a 50% o famau, yn y drefn honno.

Roedd rhieni mewn amddifadedd materol<sup>11</sup> yn llai tebygol o fod yn hyderus iawn yn eu gallu i helpu gyda darllen Saesneg (62%), ysgrifennu Saesneg (57%) a mathemateg (48%) na'r rheini nad ydynt mewn amddifadedd materol (83%, 79% a 65% yn y drefn honno).

### Gallu helpu gyda darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg – dadansoddiad pellach

Cynhaliwyd mwy o ddadansoddiadau manwl i ganfod pwy oedd yn fwyaf tebygol o fod yn hyderus yn eu gallu i helpu eu plentyn i ddarllen ac ysgrifennu yn Gymraeg. Cafodd llawer o ffactorau<sup>12</sup> eu hystyried fel rhagfynegyddion posibl ond pan fo'r ffactorau hyn yn gyson, roedd y ffactorau canlynol yn cael effaith sylweddol ar rieni a oedd yn fwyaf tebygol o fod yn hyderus yn helpu.

- **Gallu siarad Cymraeg** – roedd rhieni sy'n siarad Cymraeg yn fwy hyderus yn eu gallu i helpu eu plentyn i ddarllen ac ysgrifennu yn Gymraeg na rhieni nad ydynt yn siarad Cymraeg.
- **Rhyw'r rhiant** – Roedd mamau yn fwy tebygol o fod yn hyderus yn helpu na thadau.

<sup>11</sup> Amddifadedd materol – edrychwch ar y [Termau a'r diffiniadau](#)

<sup>12</sup> Dyma'r ffactorau a oedd wedi'u cynnwys yn y model: cymwysterau'r rhiant, gallu siarad Cymraeg, oedran y plentyn, rhyw'r plentyn, ardaloedd trefol a gwledig, ardal yng Nghymru, rhyw'r rhiant, gorbryder, amddifadedd materol aelwydydd, MALIC, deiliadaeth, nifer y plant yn y cartref.


## Barn am y system addysg yng Nghymru

Gofynnodd yr Arolwg Cenedlaethol y cwestiwn canlynol i bawb: 'Nodwch beth yw eich barn gyffredinol am gyflwr addysg yng Nghymru y dyddiau hyn?' lle mae 0 yn golygu 'eithriadol o wael' a 10 yn golygu 'eithriadol o dda'. Cafodd y cwestiwn hwn ei gymryd o [Arolwg Cymdeithasol Ewrop](#), gan ganiatáu rywfaint o gymharu â gwledydd ar draws Ewrop. Gofynnwyd i bobl ystyried pob agwedd ar y system addysg, o ysgolion meithrin i brifysgolion, yn ogystal â chysiau addysg i oedolion.

Yr ymateb cyfartalog a roddwyd yn yr Arolwg Cenedlaethol oedd 6.2 allan o 10. Mae hyn yn debyg i ganlyniad 2012-13 (6.4) a chanlyniad 2013-14 (6.3). Yn 2014-15, roedd y cyfartaledd yn uwch – 6.6.

Roedd y cyfartaledd ar draws y DU (5.8) a'r cyfartaledd ar draws gwledydd Ewrop (5.4) a welwyd yn Arolwg Cymdeithasol Ewrop yn sylweddol is na ffigur Cymru yn Arolwg Cenedlaethol 2016-17 (6.4), fel y gwelir yn Siart 11.

### Siart 11: Boddhad cyffredinol â'r system addysg, yn ôl gwlad yn Ewrop



Ffynhonnell: Arolwg Cymdeithasol Ewrop 2016 ac Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2016-17


Sylwer nad yw'r holl wledydd sy'n cymryd rhan yn Arolwg Cymdeithasol Ewrop wedi cyhoeddi eu canlyniadau ar gyfer 2016 eto; felly gallai cyfartaledd Ewrop newid yn y dyfodol wrth i ragor o wledydd gyhoeddi eu canlyniadau.

Yn yr un modd â'r blynyddoedd blaenorol, roedd cyfran y bobl a atebodd "Ddim yn gwybod" i'r cwestiwn hwn yn 15% (20% ymysg pobl mewn aelwydydd heb blant o dan 19 oed; 5% ymysg aelwydydd â phlant o dan 19 oed). Y rheswm tebygol dros hyn yw bod rhai pobl heb blant yn teimlo nad oes ganddynt ddigon o brofiad diweddar o'r system addysg i ateb y cwestiwn.

Mae gweddill yr adran hon yn edrych yn fanylach ar ganlyniadau Arolwg Cenedlaethol 2016-17.

O blith pob grŵp oedran, y grŵp â'r bodlonrwydd uchaf ar gyfartaledd oedd 16-24 oed: 6.6, sy'n ddiddorol gan fod y grŵp hwn yn dal mewn addysg neu wedi gadael addysg yn ddiweddar. Y grŵp oedran 55-64 oedd â'r sgôr isaf, 5.8, fel y gwelir yn Siart 12 isod.

### Siart 12: Boddhad cyffredinol â'r system addysg, yn ôl oedran yr ymatebwyr




Mae'r bodlonrwydd cyfartalog ar gyflwr y system addysg yng Nghymru yn amrywio yn ôl nodweddion yr aelwyd. Er enghraifft, roedd gan aelwydydd â phlentyn o dan 16 oed sgôr uwch ar gyfartaledd (6.4) nag aelwydydd heb blentyn o dan 16 oed (6.1). Yn yr un modd, roedd gan aelwydydd â phlentyn o dan 5 oed sgôr uwch ar gyfartaledd (6.6) nag aelwydydd heb blentyn o dan 16 oed (6.1).

Roedd sgoriau pobl sy'n byw mewn tai cymdeithasol neu lety rhent preifat yn uwch ar gyfartaledd (6.5 yr un) o'i gymharu â sgoriau'r rheini sy'n byw mewn tai sy'n eiddo i berchen-feddianwyr (6.1). O ran lle mae pobl yn byw, mae pobl sy'n teimlo ymdeimlad o gymuned yn fwy bodlon (6.4) na'r rheini nad ydynt yn teimlo hynny (6.0).

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn gyfrifol am eu cyllid addysg eu hunain. Wrth edrych ar fodlonrwydd cyffredinol ar addysg yn ôl awdurdod lleol, gwelir gwahaniaethau rhwng pa awdurdodau lleol oedd â'r sgoriau isaf a pha rai oedd â'r sgoriau uchaf. Powys oedd yr awdurdod â'r sgôr isaf ar gyfartaledd (5.7), a Sir y Fflint oedd â'r sgôr uchaf ar gyfartaledd (6.5). Mae canlyniadau pob awdurdod lleol i'w gweld yn [Siart 13](#).

### Siart 13: Boddhad cyffredinol â'r system addysg, yn ôl awdurdod lleol



Mae gwahaniaeth i'w weld rhwng y rheini sy'n byw mewn ardaloedd trefol ac ardaloedd gwledig hefyd. Roedd unigolion sy'n byw mewn ardaloedd trefol yng Nghymru yn fwy bodlon ar gyfartaledd (6.2) na'r rheini sy'n byw mewn ardaloedd gwledig (6.1).

Mae bodlonrwydd cyfartalog yn amrywio yn ôl cymhwyster uchaf yr unigolyn. Roedd y rheini â dim cymwysterau yn fwy bodlon ar gyfartaledd (6.4) na'r rheini â chymwysterau ar lefel gradd neu uwch (6.0).

Efallai fod cysylltiad rhwng bodlonrwydd pobl ar agweddau eraill ar fywyd a'u bodlonrwydd ar y system addysg yng Nghymru, ac i'r gwrthwyneb. Roedd gan y rheini oedd â bodlonrwydd uchel iawn mewn bywyd sgôr uwch ar gyfartaledd o ran bodlonrwydd ar addysg (6.5) na'r rheini oedd â bodlonrwydd isel mewn bywyd (5.3). Gwelir tuedd debyg ar gyfer bodlonrwydd ar swyddi.

Gofynnodd yr arolwg nifer o gwestiynau'n ymwneud ag unigrwydd<sup>13</sup> er mwyn canfod pa mor unig yr oedd pobl yn ei deimlo. Roedd sgoriau cyfartalog y rheini sy'n unig yn llai ar gyfartaledd (5.7) na'r rheini nad ydynt yn unig (6.4).

### **Barn am y system addysg yng Nghymru – dadansoddiad pellach**

Eto, er mwyn deall effaith y ffactorau unigol, gwnaethom waith dadansoddi pellach i nodi'r nodweddion sy'n gysylltiedig â phwy oedd fwyaf tebygol o fod yn fodlon **iawn** ar gyflwr addysg yng Nghymru. Gan reoli ar gyfer ffactorau eraill<sup>14</sup>, gwelsom fod y ffactorau canlynol yn cael effaith ar wahân ar bobl yn teimlo'n fodlon iawn ar gyflwr addysg yng Nghymru:

- bod ag ethnigrwydd ar wahân i wyn Cymreig/Saesnig/Prydeinig;
- heb ddim cymwysterau;
- bod ag ymddiriedaeth uchel iawn mewn pobl eraill;
- bod â bodlonrwydd uchel iawn mewn bywyd;
- teimlo bod ymdeimlad cryf o gymuned yn yr ardal leol;
- yn rhentu'n breifat neu'n byw mewn tai cymdeithasol;
- bod â phlentyn o dan 5 oed; ac
- yn byw ym Mhen-y-Bont ar Ogwr yn hytrach na Phowys neu Sir Benfro.

Mae pob un o'r ffactorau hyn yn cael effaith ar wahân ar y tebygolrwydd o fod yn fodlon iawn ar addysg yng Nghymru, ar ôl rheoli ar gyfer ffactorau eraill. Er bod y gwaith dadansoddi yn cadarnhau llawer o'r croes-ddadansoddi a drafodwyd yn gynharach, gwelwyd nad oedd rhai ffactorau, fel oedran ac adran wledig/trefol, yn gysylltiedig mwyach. Mae hyn yn golygu bod y berthynas ymddangosiadol rhwng oedran a bodlonrwydd ar addysg yng Nghymru yn fwy tebygol mewn gwirionedd o fod yn gysylltiedig â'r ffactorau eraill uchod.

Fel gyda phob dadansoddiad o'r math hwn nid oes modd i ni briodoli achos ac effaith na darparu ar gyfer ffactorau anhysbys.

---

<sup>13</sup> Cyfrifwyd hyn gan ddefnyddio graddfa unigrwydd De Jong Gierveld - gweler [Termau a diffiniadau](#)

<sup>14</sup> Dyma'r ffactorau a oedd wedi'u cynnwys yn y model: oedran, rhyw, lefel cymwysterau, plant o dan 5 oed yn yr aelwyd, plant o dan 16 oed yn yr aelwyd, deiliadaeth, statws gwaith yr aelwyd, amddifadedd materol, MALIC, ardaloedd trefol a gwledig, ymddiriedaeth mewn pobl, bodlonrwydd mewn bywyd, ethnigrwydd, awdurdod lleol, ymdeimlad o gymuned.

## Termau a diffiniadau

### Ymdeimlad o gymuned

Gofynnwyd i ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol:

- 'Dwi'n perthyn i fy ardal leol.'
- 'Mae'r ardal leol hon yn rhywle lle mae pobl o wahanol gefndiroedd yn dod ymlaen yn dda gyda'i gilydd.'
- 'Mae pobl yn fy ardal leol i yn trin ei gilydd gyda pharch ac ystyriaeth.'

Ar gyfer y dangosydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, cafodd yr ymatebion eu cyfuno. Ystyriwyd bod gan y rhai a oedd yn cytuno â'r tri datganiad ymdeimlad o gymuned - gweler y Dangosyddion Cenedlaethol i gael mwy o wybodaeth.

### Categoriâu cefnogi ysgolion

Nod [System Cenedlaethol ar gyfer Categoriaddio Ysgolion](#) yw darparu strwythur clir i asesu pa mor dda mae'r ysgol yn perfformio. Mae'n cymryd i ystyriaeth pa mor effeithiol mae'r ysgol yn cael ei harwain a'i rheoli, ansawdd y dysgu a'r addysgu, a lefel o gymorth a her sydd angen ar yr ysgol i wella.

Mae pob categori wedi cael lliw – gwyrdd, melyn, oren neu goch. Mae lliw y categori yn dangos lefel y gefnogaeth sydd ei hangen ar ysgol (mae'r ysgolion yn y categori gwyrdd angen y lleiaf o gefnogaeth ac mae'r rheini yn y categori coch angen y gefnogaeth fwyaf dwys). Bydd pob ysgol yn cael rhaglen wedi'i theilwra o gefnogaeth, her ac ymyriad yn seiliedig ar ei chategori. Rhoddir hyd at 4 diwrnod o gefnogaeth i ysgolion gwyrdd, hyd at 10 diwrnod i ysgolion melyn, hyd at 15 i ysgolion oren a hyd at 25 i ysgolion coch.

### Absenoldebau

Mae absenoldeb awdurdodedig yn golygu bod yr ysgol wedi rhoi cymeradwyaeth ymlaen llaw; neu fod esboniad boddhaol wedi cael ei roi ar ôl yr absenoldeb. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys salwch, apwyntiadau meddyg neu ddeintydd, neu seibiant astudio. Mae absenoldeb anawdurdodedig yn golygu absenoldeb lle nad oes esboniad boddhaol wedi cael ei roi.

### Mathau o ysgolion

Cafodd yr ysgolion eu rhannu'n gategoriâu:

- Ysgolion cymunedol – ym mherchnogaeth a gofal llwyr yr awdurdod lleol. Yr awdurdod lleol yw'r awdurdod derbyn – ar yr awdurdod mae'r prif gyfrifoldeb dros benderfynu ar y trefniadau ar gyfer derbyn disgyblion.
- Ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr – wedi'u sefydlu gan gyrff gwirfoddol, yr enwadau crefyddol yn bennaf, ond yr awdurdodau lleol sy'n gofalu amdanynt. Y corff llywodraethu yw awdurdod derbyn ysgol wirfoddol a gynorthwyr.

- Ysgolion gwirfoddol a reolir – wedi'u sefydlu gan gyrff gwirfoddol, yr enwadau crefyddol yn bennaf, ond yr awdurdodau lleol sy'n gofalu amdanynt. Yr awdurdod lleol yw awdurdod derbyn ysgol wirfoddol a reolir.
- Ysgolion sefydledig – mwy o ryddid nag ysgolion cymunedol i reoli eu hysgol a phenderfynu ar eu trefniadau derbyn eu hunain. Daw'r cyllid gan yr awdurdod lleol.

## **Prydau ysgol am ddim**

Gallai plant a phobl ifanc sy'n mynd i'r ysgol ar sail amser llawn fod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim os yw eu rhiant/rhieni yn cael rhai budd-daliadau ar sail incwm.

## **Amddifadedd materol**

Mae amddifadedd materol yn fesuriad sydd wedi'i ddylunio i ganfod canlyniadau tlodi tymor hir i gartrefi, yn hytrach na straen ariannol tymor byr.

Gofynnwyd i oedolion nad oeddynt yn bensiynwyr a oeddynt yn cael pethau fel 'gwylliau oddi cartref am o leiaf wythnos y flwyddyn', 'digon o arian i gadw'u cartref mewn cyflwr addurnol da', neu a allent 'gynilo £10 y mis neu fwy'. Yr oedd y cwestiynau ar gyfer oedolion yn canolbwyntio ar eu gallu i fforddio'r eitemau hyn ai peidio. Mae'r eitemau hyn mewn gwirionedd ar gyfer eu 'haelwyd' yn hytrach na nhw eu hunain yn bersonol a dyna pam eu bod yn cael eu galw'n flaenorol yn 'amddifadedd materol aelwydydd'.

Gofynnwyd cwestiynau ychydig yn wahanol i bensiynwyr megis a oedd 'eu cartref yn cael ei gadw'n ddigon cynnes', a oedd ganddynt 'fynediad at gar neu dacsî, pan fo angen' neu a oeddynt yn cael torri neu drin eu gwallt yn rheolaidd'. Gofynnwyd iddynt hefyd a oeddynt yn gallu fforddio'r rhain, ond rhoddwyd ffocws hefyd ar fethu â chael yr eitemau hyn am resymau eraill megis iechyd gwael neu neb i'w cynorthwyo ayb. Roedd y cwestiynau hyn yn llai seiliedig ar yr aelwyd ac yn ymwneud mwy â'r unigolyn.

Rhoddwyd sgôr i'r rhai nad oedd ganddynt yr eitemau hyn, fel os nad oedd ganddynt unrhyw eitem ar y rhestr, byddent yn cael sgôr o 1000, ac os oedd ganddynt yr holl eitemau, byddent yn cael sgôr o 0. Roedd y rhai nad oeddynt yn bensiynwyr ac yn cael sgôr o 25 neu fwy yn cael eu dosbarthu fel rhai a oedd yn dioddef amddifadedd, ac yr oedd pensiynwyr â sgôr o 20 neu fwy yn cael eu hystyried yn rhai ag amddifadedd.

Gofynnwyd set o gwestiynau i rieni plant hefyd ynghylch beth yr oeddynt yn gallu ei fforddio ar gyfer eu plant.

Yn y bwletin hwn mae mesurau pensiynwyr a rhai nad ydynt yn bensiynwyr wedi'u cyfuno i ddarparu newidyn amddifadedd 'oedolion'. Gall y termau amddifadedd 'oedolion' ac 'aelwydydd' gael eu defnyddio'n gyfnewidiol gan ddibynnu ar y cyd-destun.

## **Cymwysterau**

Mae cymwysterau uchaf yr ymatebwyr wedi'u grwpio yn ôl lefelau'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol: lefel 1 yw'r lefel gymwysterau isaf ac mae lefel 8 yn cyfateb i radd doethuriaeth neu gymhwyster cyfwerth. Ar gyfer yr Arolwg Cenedlaethol, mae'r ymatebwyr wedi'u gosod mewn 5 grŵp: mae'r rhai sydd heb gymwysterau wedi'u gosod yn y categori isaf, ac mae ymatebwyr sydd â

chymwysterau ar lefelau 4 i 8 wedi'u grwpio gyda'i gilydd yn y categori cymwysterau uchaf. [Rhagor o wybodaeth am lefelau'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol](#).

Er mwyn darparu disgrifiadau mwy ystyrlon o'r cymwysterau, defnyddiwyd y disgrifiadau byr hyn yn y bwletin hwn.

Lefelau'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol	Disgrifiadau a ddefnyddir yn y bwletin
Lefelau 4-8 yr FfCC	Lefel Gradd neu uwch
Lefel 3 yr FfCC	Lefel 'A' a chymwysterau cyfwerth
Lefel 2 yr FfCC	TGAU graddau A i C a chymwysterau cyfwerth
Islaw lefel 2 y Fframwaith	TGAU is na gradd C
Dim cymwysterau	Dim cymwysterau

## Unigrwydd

Gellir defnyddio gwahanol fesurau o unigrwydd at ddibenion dadansoddi data, ond mae'r Arolwg Cenedlaethol yn defnyddio mesur De Jong Gierveld. Caiff ei gyfrifo gan ddefnyddio graddfa unigrwydd De Jong Gierveld - gweler Termau a diffiniadau graddfa unigrwydd 6 phwynt. Ar gyfer y raddfa hon, dangoswyd cyfres o 6 datganiad i ymatebwyr a gofynnwyd iddynt nodi i ba raddau roedd pob datganiad yn berthnasol iddynt. Roedd 3 datganiad ynghylch 'unigrwydd emosiynol (UE)' a 3 ynghylch 'unigrwydd cymdeithasol (UC)'.

1. Dwi'n cael teimlad cyffredinol o wacter (UE)
2. Dwi'n gweld eisiau cwmni pobl (UE)
3. Dwi'n teimlo fy mod yn cael fy ngwrthod yn aml (UE)
4. Dwi'n gallu ymddiried mewn digon o bobl pan fydd gennyf i broblemau (UC)
5. Dwi'n gallu ymddiried yn llwyr mewn llawer o bobl (UC)
6. Dwi'n teimlo'n agos at ddigon o bobl (UC)

Mae'r raddfa yn defnyddio tri chategori ymateb: Ydw / Fwy neu lai / Nac ydw - lle mae'r atebion niwtral a chadarnhaol yn cael sgôr o "1" ar y cwestiynau sydd wedi'u geirio'n negyddol (cwestiynau 1-3 fan hyn). Ar gyfer y cwestiynau sydd wedi'u geirio'n gadarnhaol (cwestiynau 4-6), mae'r atebion niwtral a negyddol yn cael sgôr o "1". Mae hyn yn golygu bod ateb o 'fwy neu lai' yn cael yr un sgôr ag 'ydw' neu 'nac ydw', yn dibynnu ar y cwestiwn.

Mae sgôr pob cwestiwn unigol yn cael eu hychwanegu at ei gilydd i ddarparu mesur cyffredinol o unigrwydd. Felly mae'r ystod sgoriau bosibl rhwng 0 a 6, lle mae 0 yn golygu lleiaf unig a 6 yn golygu mwyaf unig. At ddibenion adrodd yn y bwletin hwn, rydym wedi ystyried bod pobl sydd â sgôr rhwng 4 a 6 yn unig.

## Gwybodaeth allweddol am ansawdd

### Cefndir

Cynhelir Arolwg Cenedlaethol Cymru gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r canlyniadau a adroddir yn y bwletin hwn yn seiliedig ar gyfweiliadau a gwblhawyd yn 2016-17 (1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017).

Tynnwyd y sampl o Ffeil Cyfeiriadau Cod Post Defnyddwyr Bach y Post Brenhinol (PAF), a thrwy hynny yr oedd pob cyfeiriad preswyl a mathau o anheddau wedi'u cynnwys yn y broses o ddethol y sampl, cyn belled â'u bod wedi'u rhestru fel cyfeiriadau unigol. Os oeddynt wedi'u cynnwys fel cyfeiriadau unigol ar y PAF, cafodd cartrefi parciau preswyl ac anheddau eraill eu cynnwys yn y ffrâm sampl ond nid yw sefydliadau cymunedol fel cartrefi gofal a barics milwrol ar y PAF ac felly ni chawsant eu cynnwys.

Yr oedd sampl yr Arolwg Cenedlaethol yn 2016-17 yn cynnwys 21,666 o gyfeiriadau wedi'u dewis ar hap o'r PAF. Ymwelodd cyfweilwyr â phob cyfeiriad, dewiswyd un oedolyn (16+ oed) ar hap yn y cartref, a chynhaliwyd cyfweiliad 45 munud wyneb yn wyneb â'r oedolyn hwnnw, gan ofyn am ei farn am amrywiaeth eang o faterion sy'n effeithio arno a'i ardal leol. Cyflawnwyd 10,493 o gyfweiliadau i gyd.

### Dehongli'r canlyniadau

Dim ond ar yr ymatebwyr hynny a roddodd ateb i'r cwestiwn perthnasol y mae'r canrannau a nodir yn y bwletin hwn wedi'u seilio. Holwyd am rai pynciau yn yr arolwg i is-sampl o ymatebwyr yn unig ac ni chafodd cwestiynau eraill eu gofyn lle nad oedd y cwestiwn yn berthnasol i'r ymatebydd. Mae sawl rheswm pam na cheir ateb i gwestiynau, gan gynnwys pobl yn gwrthod neu'n methu ag ateb cwestiwn penodol.

Os nodwyd cysylltiad rhwng dau ffactor, nid yw hyn yn golygu bod un yn achosi'r llall. Bydd angen dadansoddiad manylach i ganfod a yw un ffactor yn achosi newid mewn un arall.

Mae'r canlyniadau wedi eu pwysoli sicrhau bod y canlyniadau'n adlewyrchu dosbarthiad oedran a rhyw poblogaeth Cymru.

### Amrywioldeb samplu

Mae amcangyfrifon o'r Arolwg Cenedlaethol yn agored i rywfaint o ansicrwydd. Mae rhan o'r ansicrwydd yn deillio o'r ffaith y bydd unrhyw sampl o'r boblogaeth a ddewisir ar hap yn rhoi canlyniadau ychydig yn wahanol i'r canlyniadau a geid pe bai'r boblogaeth gyfan yn cael ei holi. Gelwir hyn yn gyfeiliornad samplu. Gellir defnyddio cyfyngau hyder i roi syniad o faint y cyfeiliornad samplu. Caiff y cyfyngau hyn eu cyfrifo o amgylch amcangyfrif o arolwg ac maent yn rhoi amrediad lle y mae'r gwerth gwirioneddol yn debygol o ostwng. Mewn 95% o samplau arolwg, bydd y cyfwng hyder o 95% yn cynnwys y ffigur 'gwirioneddol' ar gyfer y boblogaeth gyfan (hynny yw, y ffigur y byddem yn ei gael pe byddai'r arolwg yn cwmpasu'r boblogaeth gyfan). Yn gyffredinol, po leiaf yw maint y sampl y mwyaf yw'r cyfwng hyder. Mae cyfyngau hyder wedi cael eu cynnwys mewn tablau o ganlyniadau'r arolwg a gyhoeddwyd ar [StatsCymru](#).

Fel gydag unrhyw arolwg, mae'r Arolwg Cenedlaethol hefyd yn agored i amrywiaeth o ffynonellau cyfeiliornadau eraill: er enghraifft, oherwydd diffyg ymateb; oherwydd efallai na fydd ymatebwyr yn

dehongli'r cwestiynau fel y bwriadwyd iddynt wneud neu na fyddant efallai yn ateb yn gywir; ac oherwydd y gall cyfeiliornadau ymddangos wrth i ddata'r arolwg gael ei brosesu. Gelwir y mathau hyn o gyfeiliornad yn gyfeiliornad nad yw'n gyfeiliornad samplu, ac fe'u trafodir ymhellach yn yr [adroddiad ansawdd](#) ar yr arolwg.

## **Gwahaniaethau arwyddocaol**

Pan fo testun y datganiad hwn yn nodi gwahaniaeth rhwng dau o ganlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol (yn yr un flwyddyn), rydym wedi sicrhau nad yw'r cyfyngau hyder ar gyfer y ddau ganlyniad yn gorgyffwrdd. Mae hyn yn awgrymu bod y gwahaniaeth yn arwyddocaol yn ystadegol (ond, fel y nodir uchod, nid yw mor fanwl â chynnal prawf ystadegol ffurfiol), h.y. bod llai na 5% (1 mewn 20) o siawns o gael y canlyniadau hyn os nad oes gwahaniaeth rhwng yr un dau grŵp yn y boblogaeth ehangach.

Mae'n llai tebygol y ceir casgliadau bod gwahaniaethau gwirioneddol rhwng grwpiau wrth wirio a yw dau gyfwng hyder yn gorgyffwrdd nag y mae wrth gynnal prawf ystadegol ffurfiol. Hynny yw, mae'n fwy tebygol o arwain at "ganlyniadau negyddol ffug": casgliadau anghywir nad oes gwahaniaeth gwirioneddol pan fo gwahaniaeth mewn gwirionedd. Mae hefyd yn llai tebygol o arwain at "ganlyniadau cadarnhaol ffug": casgliadau anghywir bod gwahaniaeth pan nad oes gwahaniaeth mewn gwirionedd. Mae cynnal llawer o gymariaethau yn cynyddu'r siawns y ceir canlyniadau cadarnhaol ffug. Felly, pan wneir llawer o gymariaethau, mae natur geidwadol y prawf yn fantais gan ei bod yn lleihau'r siawns hon (ond nid yw'n ei dileu).

Pan fo canlyniadau Arolwg Cenedlaethol yn cael eu cymharu â chanlyniadau o ffynonellau eraill, nid ydym wedi gwirio a yw cyfyngau hyder yn gorgyffwrdd.

## **Dadansoddiad atchweliad**

Ar ôl ystyried canlyniadau'r arolwg, cafodd ffactorau a oedd yn ein barn ni yn debygol o ddylanwadu ar fodlonrwydd gyda rhwyddineb gwneud apwyntiad cyfleus, a bodlonrwydd gyda'r gofal a dderbyniwyd mewn apwyntiad wedi'u hymgorffori ym mhob un o'r modelau atchweliad perthnasol. Ym mhob achos detholwyd y newidynnau cychwynnol a ddefnyddiwyd yn yr atchweliad ar sail y canlynol: canlyniadau traws-ddadansoddi, cyfeiriad polisi ac ymarferoldeb defnyddio'r newidyn. Dim ond ar gyfer is-sampl o ymatebwyr yr oedd canlyniadau rhai ffactorau ar gael, neu yr oedd nifer fawr o ganlyniadau 'ar goll' a olygodd ostyngiad sylweddol ym maint y sampl y gellid profi'r model atchweliad ar ei sail. Am y rheswm hwn, gadawyd rhai newidynnau/ffactorau allan o'r ymchwiliad. Yr oedd y modelau terfynol yn cynnwys y ffactorau hynny a oedd yn parhau'n arwyddocaol hyd yn oed ar ôl cadw'r ffactorau eraill yn ddigynnewid. Y ffactorau arwyddocaol hyn yw'r rhai a drafodwyd yn y bwletin hwn a dangosir y defnydd o ddadansoddiad atchweliad gan y datganiad ein bod wedi 'rheoli ar gyfer ffactorau eraill.' Mae'n werth nodi pe byddai ystod wahanol o ffactorau wedi bod ar gael i'w hystyried o'r arolwg, yna gallai rhai casgliadau yr oedd ffactorau'n arwyddocaol mewn perthynas â hwy, fod wedi bod y wahanol.

Mae mwy o fanylion am y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad atchweliad ar gael yn [Adroddiad Technegol: Dull gweithredu o ran dadansoddiad atchweliad a'r modelau a gynhyrchwyd](#).

### **Adroddiad technegol**

Nodir gwybodaeth fanylach am fethodoleg yr arolwg yn yr adroddiad technegol ar yr arolwg.

### **Adroddiad ansawdd**

Mae Adroddiad Ansawdd cryno ar gael, sy'n cynnwys gwybodaeth fanylach am ansawdd yr arolwg ynghyd â chrynodeb o'r dulliau a ddefnyddiwyd i lunio'r canlyniadau.

## Statws Ystadegau Gwladol

Mae [Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig](#) wedi dynodi'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007, sy'n dangos eu bod yn cydymffurfio â'r [Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau](#).

Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu bod ystadegau gwladol yn cyrraedd y safonau uchaf o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth i'r cyhoedd.

Dylai'r holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd ar y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Dyfernir statws Ystadegau Gwladol iddynt yn dilyn asesiad gan gangen reoleiddio Awdurdod Ystadegau'r DU. Mae'r Awdurdod yn ystyried a yw'r ystadegau'n cyrraedd y safonau uchaf o ran cydymffurfio â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ei ychwanegu at benderfyniadau a dadleuon cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw parhau i gydymffurfio â'r safonau a ddisgwyllir gan Ystadegau Gwladol. Os down i bryderu ynghylch p'un a yw'r ystadegau hyn yn dal i gyrraedd y safonau priodol, byddwn yn trafod y pryderon â'r Awdurdod yn brydlon. Gellir dileu statws Ystadegau Gwladol ar unrhyw adeg pan nad yw'r safonau uchaf yn cael eu cynnal, a gellir adennill y statws pan fo'r safonau'n cael eu hadfer.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant ar gyfer Cymru. Cymru sy'n fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach, a chyfrifol ar lefel fyd-eang, sydd â chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) cyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") y mae'n rhaid eu cymhwyso er mwyn mesur cynnydd tuag at gyrraedd y nodau Llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Gosodwyd y 46 o ddangosyddion cenedlaethol ym mis Mawrth 2016 ac mae'r datganiad hwn yn cynnwys dau o'r dangosyddion cenedlaethol sef 27 a 30.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau Llesiant a gwybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn [Adroddiad Llesiant Cymru](#).

Mae'r datganiad hwn yn cynnwys 2 dangosydd cyd-destunol, sef 27 a 30 y cyfeiriwyd atynt yn y ddogfen dechnegol neu'r adroddiad Llesiant yn y ddolen flaenorol.

Fel dangosydd cenedlaethol dan y Ddeddf, rhaid cyfeirio atynt yn y dadansoddiadau o lesiant lleol a lunnir gan fyrdau gwasanaethau cyhoeddus pan maent yn dadansoddi cyflwr llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yn eu hardaloedd.

Rhagor o wybodaeth am [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#).

Gallai'r ystadegau sydd wedi eu cynnwys yn y datganiad hwn hefyd ddarparu naratif i gefnogi'r dangosyddion cenedlaethol a gallent gael eu defnyddio gan fyrdau gwasanaethau cyhoeddus mewn cysylltiad â'u hasesiadau llesiant lleol a'u cynlluniau llesiant lleol.

## **Rhagor o fanylion**

Mae'r ddogfen ar gael yn:

<https://llyw.cymru/statistics-and-research/national-survey/?tab=current&lang=cy>

## **Diweddariad nesaf**

Nid yw hwn yn gyhoeddiad rheolaidd

## **Hoffem gael adborth gennych**

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn, a gellir ei ddarparu drwy anfon neges e-bost i [arolygon@llyw.cymru](mailto:arolygon@llyw.cymru)

## **Trwydded Llywodraeth Agored**

Mae'r holl gynnwys ar gael dan y [Drwydded Llywodraeth Agored f.3.0](#), ac eithrio pan nodir fel arall.

